Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

# GWYS A RHAGLEN

ar gyfer

**CYFARFOD ARBENNIG O GYNGOR SIR YNYS MÔN**

a gynhelir yn

**SIAMBR Y CYNGOR
SWYDDFA'R SIR
LLANGEFNI**

**DYDD MAWRTH, 18 MEHEFIN 2013**

**am 10.30 o'r gloch**

# SUMMONS AND AGENDA

for a

**EXTRAORDINARY MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL**

to be held at the

**COUNCIL CHAMBER
COUNCIL OFFICES
LLANGEFNI**

**TUESDAY, 18 JUNE 2013**

**at 10.30 am**

R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y Rhaglen.

2 **DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, YR ARWEINYDD NEU'R PRIF WEITHREDWR.**

3 **NEWIDIADAU I GYFANSODDIAD Y GYNGOR – PENODI AELODAU CYFETHOLEDIG HEB HAWLIAU PLEIDLEISIO I WASANAETHU AR BWYLLGORAU SGRIWTINI**

Dweud fod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 10 Mehefin wedi penderfynu fel a ganlyn:-

*"Argymell i'r Cyngor Sir ei fod yn dirprwyo i bob Pwyllgor Sgriwtini y disgresiwn i benodi aelodau cyfetholedig heb hawliau pleidleisio am ba gyfnod bynnag ac ar y telerau y bydd y Pwyllgor Sgriwtini yn eu hystyried i fod yn briodol heb orfod cael caniatâd y Cyngor a rhoi'r awdurdod i'r Swyddogion wneud unrhyw newidiadau i'r Cyfansoddiad yn dilyn hynny."*

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 10 Mehefin 2013.

4 **COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL AR GYFER CYMRU – PAPUR YMGYNGHORI YNGHYLCH MAINT CYNGHORAU**

(1) Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr.

(2) Cyflwyno copi o'r Papur Ymgynghori.

5 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Ystyried mabwysiadu'r isod:-

*"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y tebygrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."*

6 **PWRCASU CERBYDAU CASGLU GWASTRAFF**

Dweud fod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 10 Mehefin, 2013 wedi penderfynu argymell yr isod i'r Cyngor Sir:-

*“Mai’r opsiwn a ffefrir yw Opsiwn 2, sef pwrcasu Cerbydau Adennill Adnoddau (CAA) newydd a defnyddio’r biniau 240 litr cyfredol ar gyfer dechrau ail hanner y contract 14 mlynedd.*

*Cytuno y gall Biffa symud ymlaen ar unwaith i archebu Cerbydau Adennill Adnoddau, casglu gwastr af a glanhau strydoedd newydd i osgoi’r costau ychwanegol yn sgil Euro 6.*

*Cytuno y dylai’r Gwasanaeth Cyllid drafod a yw’n ymarferol i’r Cyngor ariannu pryniant yr holl gerbydau newydd gyda Biffa a symud ymlaen i ddarparu’r cyllid hwn, pe bai’n fanteisiol i’r Cyngor a bod gwarantau digonol yn eu lle bod y cerbydau’n parhau i fod ym meddiant y Cyngor pe bai’r contractwr yn cael anawsterau ariannol.*

*Bod Swyddogion yn parhau i adolygu’r opsiynau casglu yn ystod ail hanner y contract 14 mlynedd gyda Biffa ac yn darparu i’r Pwyllgorau perthnasol wybodaeth bellach ar systemau i’w hystyried ar gyfer y dyfodol ynghyd â chostau’r systemau hynny, gan gadw mewn cof y bydd proses gaffael newydd yn dechrau yn 2019/20 am gontract newydd i ddechrau yn Ebrill 2021.*

*O ystyried yr amgylchiadau a ddisgrifir yn yr Adroddiad hwn a’r angen i weithredu ar frys, bod y Pwyllgor, yn unol â Rheol Gweithdrefn Contractau 4.5.16.10, yn cytuno na fydd y penderfyniad yn un y gellir ei alw i mewn gan y byddai hynny’n niweidio diddordeb y Cyngor yn ddifrifol.”* .

Adroddir ar yr eitem hon i’r Cyngor llawn er gwybodaeth oherwydd roedd wedi ei heithrio o’r drefn galw-i-mewn am ei bod yn eitem yr oedd angen rhoddi sylw brys iddi.

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd a Rheoli Gwastraff fel y’i cyflwynwyd i’r Pwyllgor Gwaith ar 6 Mehefin, 2013.

This page is intentionally left blank

**RHIF YR EITEM**

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | Y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir |
| **Dyddiad** | 10 Mehefin 2013 ac 18 Mehefin 2013 |
| **Pwnc** | Penodi Aelodau Cyfetholedig sydd heb hawl i bleidleisio i wasanaethu ar Bwyllgorau Sgriwtini |
| **Swyddog(ion) Arweiniol** | Swyddog Monitro |
| **Swyddog Cyswllt** | Rheolydd Sgriwtini |
| **Rheswm am yr adroddiad:** Penodi aelodau cyfetholedig sydd heb hawl i bleidleisio i wasanaethu ar Bwyllgorau Sgriwtini. | |

## A. Rhagarweiniad / Cefndir / Materion

Newid y mae angen i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried, ac i'w gymeradwyo gan y Cyngor, er mwyn symleiddio'r proses o benodi aelodau cyfetholedig sydd heb hawliau pleidleisio i wasanaethu ar Bwyllgorau Sgriwtini.

## B – Ystyriaethau

Ym Mesur Llywodraeth Leol 2011, mae Llywodraeth Cymru yn annog penodi Aelodau cyfetholedig sydd heb hawliau pleidleisio i wasanaethu ar Bwyllgorau Sgriwtini.

| **C – Goblygiadau ac Effaith** | | |
|---|---|---|
| 1 | **Cyllid / Adran 151** | |
| 2 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** | |
| 3 | **Adnoddau Dynol** | |

| | | |
|---|---|---|
| 4 | **Gwasanaethau Eiddo**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 5 | **Technoleg Cyfathrebu a Gwybodaeth** | |
| 6 | **Cydraddoldeb**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 7 | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 8 | **Cyfathrebu**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 9 | **Ymgynghori**<br><br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Ymgynghoriad gyda:<br><br>• Pennaeth Swyddogaeth – Cyfreithiol a Gweinyddiaeth/Swyddog Monitro<br>• Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau/Swyddog A151 |
| 10 | **Economaidd** | |
| 11 | **Amgylcheddol**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |

| | | |
|---|---|---|
| **12** | **Trosedd ac Anhrefn**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| **13** | **Cytundebau Canlyniadau** | |

| **CH – Crynodeb** |
|---|
| Er mwyn cydymffurfio gyda nod Llywodraeth Cymru o annog Pwyllgorau Sgriwtini i gyfethol aelodau sydd heb hawliau pleidleisio, awgrymir bod y Cyngor yn dirprwyo i bob Pwyllgor Sgriwtini ddisgresiwn i benodi Aelodau cyfetholedig sydd heb hawliau pleidleisio, am ba gyfnod bynnag y bydd pob Pwyllgor Sgriwtini yn ystyried ei fod yn briodol ac ar delerau a bennir gan bob Pwyllgor, heb orfod cael caniatâd gan y Cyngor. |

| **D – Argymhelliad** |
|---|
| Bod y Cyngor yn dirprwyo disgresiwn i bob Pwyllgor Sgriwtini benodi Aelodau cyfetholedig sydd heb hawliau pleidleisio, am ba gyfnod bynnag y bydd pob Pwyllgor Sgriwtini yn ystyried yn briodol, ac ar delerau i'w pennu ganddynt, heb orfod cael caniatâd gan y Cyngor. |

**Enw awdur yr adroddiad: Bev Symonds**
**Teitl Swydd: Rheolydd Sgriwtini**
**Dyddiad: 30 Mai 2013**

| **Atodiadau:** |
|---|
| Adroddiad ar benodi Aelodau cyfetholedig sydd heb hawliau pleidleisio i wasanaethu ar Bwyllgorau Sgriwtini. |

| **Papurau Cefndirol:** |
|---|
| • Canllawiau Statudol gan Fesur Llywodraeth Leol 2011 dyddiedig Mehefin 2012<br>• Adroddiad gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol dyddiedig Rhagfyr 2012. |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | Y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir |
| **Dyddiad** | 10 Mehefin 2013 ac 18 Mehefin 2013 |
| **Pwnc** | Penodi Aelodau Cyfetholedig sydd heb hawl i bleidleisio i wasanaethu ar Bwyllgorau Sgriwtini |
| **Swyddog(ion) Arweiniol** | Swyddog Monitro |
| **Swyddog Cyswllt** | Rheolydd Sgriwtini |

## 1.0 PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Gofyn i'r Cyngor gymeradwyo rhoi disgresiwn i bob Pwyllgor Sgriwtini benodi Aelodau cyfetholedig sydd heb hawliau pleidleisio, am ba gyfnod bynnag y bydd pob Pwyllgor Sgriwtini yn ystyried ei fod yn briodol, ac ar delerau a bennir ganddynt, heb orfod cael caniatâd y Cyngor.

## 2.0 CEFNDIR I FATERION AELODAU CYFETHOLEDIG HEB BLEIDLAIS A CHYDA PLEIDLAIS AR BWYLLGORAU SGRIWTINI YNG NGHYMRU

2.1 **Aelodau Cyfetholedig gyda hawliau pleidleisio**
Yn unol â darpariaethau paragraff 8 atodlen 1 Deddf Llywodraeth Leol 2000 a Rheoliadau Cynrychiolwyr Rhieni Llywodraethwyr a Chynrychiolwyr Eglwysi (Cymru) 2011, mae rhai Aelodau cyfetholedig yn statudol ac mae ganddynt hawliau pleidleisio awtomatig pan fo Pwyllgor Sgriwtini yn delio gyda materion addysgiadol. Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi penderfynu y dylai Cynghorau yng Nghymru dalu £198 i aelodau cyfetholedig gyda phleidlais (ffi am y dydd - mwy na 4 awr) a £99 (ffi am hanner diwrnod-llai na 4 awr) ond gall Cynghorau benderfynu'r nifer uchaf o ddyddiau y bydd Aelodau cyfetholedig yn cael tâl amdanynt mewn unrhyw flwyddyn.

2.2 Mae Rheoliadau Trosedd ac Anhrefn(Trosolwg a Sgriwtini) 2009 a Rheoliadau Trosedd ac Anhrefn(Trosolwg a Sgriwtini)(Diwygiad) 2010 yn delio gyda chyfethol Aelodau ychwanegol i wasanaethu ar Bwyllgorau Sgriwtini sy'n delio gyda materion trosedd ac anhrefn. Mater i ddisgresiwn y Pwyllgor Sgriwtini perthnasol yw cyfethol Aelodau etholedig, gan gynnwys a ddylai bod ganddynt unrhyw hawl i bleidleisio. Os rhoddir hawl i bleidleisio i Aelod cyfetholedig gan y Pwyllgor, mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi penderfynu y dylai Cynghorau yng Nghymru dalu £198 i aelodau cyfetholedig sydd â hawliau pleidleisio (ffi am y dydd – mwy na 4 awr) a £99 (ffi am hanner diwrnod-llai na 4 awr) ond gall Cynghorau benderfynu'r nifer uchaf o ddyddiau y bydd Aelodau cyfetholedig yn cael tâl amdanynt mewn unrhyw flwyddyn.

2.3 **<u>Aelodau Cyfetholedig sydd heb hawliau pleidleisio</u>**

Ac eithrio Aelodau cyfetholedig y cyfeirir atynt ym mharagraffau 2.1 a 2.2 yr adroddiad hwn, nid oes gan Aelodau cyfetholedig eraill a benodir i wasanaethu ar Bwyllgorau Sgriwtini hawl i bleidleisio ac nid oes ffi benodol yn daladwy gan y Cyngor ac eithrio lwfansau y gellir eu hawlio am gostau teithio a chynhaliaeth. Y drefn ar gyfer penodi Aelodau cyfetholedig o'r fath(sydd wedi ei nodi yn y Rheolau Gweithdrefn Sgriwtini yng Nghyfansoddiad y Cyngor) yw y bydd gan bob Pwyllgor Sgriwtini hawl i argymell i'r Cyngor benodi nifer benodol o bobl fel Aelodau cyfetholedig nad oes ganddynt hawliau pleidleisio.

## 3.0 PENODI AELODAU CYFETHOLEDIG HEB HAWLIAU PLEIDLEISIO I WASANAETHU AR BWYLLGORAU SGRIWTINI

3.1 Cyflwynodd Mesur Llywodraeth Leol 2011 newidiadau a oedd wedi eu dylunio i gryfhau strwythurau a gweithrediad Llywodraeth Leol yng Nghymru a sicrhau bod yr holl Gynghorau Lleol yn ymgysylltu gyda phob rhan o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

3.2 Dan ganllawiau statudol a gyhoeddwyd ym Mesur Llywodraeth Leol 2011, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod mantais mewn cynnwys amrediad ehangach o arbenigwyr neu gynrychiolwyr cymunedau neu ddefnyddwyr gwasanaeth fel Aelodau cyfetholedig heb hawl pleidleisio i wasanaethu ar Bwyllgorau Sgriwtini, a hynny oherwydd bod cymryd y fath gam yn fodd i Aelodau Etholedig anfon negeseuon grymus am wasanaethau sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion ac am weithio mewn partneriaeth trwy eu strwythurau a'u harferion eu hunain.

3.3 Mae'r cynsail o gael Aelodau cyfetholedig ar Bwyllgorau wedi ei hen sefydlu. Er enghraifft, penodir aelodau 'annibynnol' ar Bwyllgorau Safonau yn unol â'r trefniadau a nodir yn Rheoliadau Pwyllgorau Safonau(Cymru) 2001 a rheoliadau Pwyllgorau Safonau(Cymru)(Diwygiad) 2006. Yn ogystal, yn unol â Mesur Llywodraeth Leol 2011, mae'n rhaid sicrhau bod o leiaf un aelod lleyg yn gwasanaethu ar Bwyllgor Archwilio. Hysbysebodd y ddau Bwyllgor hyn yn wasg am aelodau lleyg annibynnol.

3.4 Er mwyn cydymffurfio gyda nod Llywodraeth Cymru o annog Pwyllgorau Sgriwtini i benodi Aelodau cyfetholedig sydd heb hawliau pleidleisio, ac i symleiddio'r broses ar gyfer penodi Aelodau cyfetholedig o'r fath, ystyrir y byddai o fudd i'r Cyngor ddirprwyo disgresiwn i bob Pwyllgor Sgriwtini benodi Aelodau cyfetholedig sydd heb hawliau pleidleisio, am ba gyfnod bynnag y mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn ystyried ei fod yn briodol ac ar delerau i'w pennu ganddo, heb orfod gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor. Bydd dirprwyo'r awdurdod hwn i Bwyllgorau Sgriwtini yn golygu rhoi mwy o hyblygrwydd iddynt benodi Aelodau cyfetholedig heb hawliau pleidleisio i ddelio gydag adolygiad neu dasg benodol a bydd yn eu gwneud yn fwy ymatebol i ddigwyddiadau.

3.5 Os bydd y Cyngor yn cytuno i ddirprwyo awdurdod i Bwyllgorau Safonau benodi Aelodau cyfetholedig sydd heb bleidlais, bydd yr Uned Sgriwtini wedyn yn trafod y mater gyda Chadeiryddion y Pwyllgorau Sgriwtini cyn cyflwyno unrhyw adroddiad i'r Pwyllgorau Sgriwtini ar benodi Aelodau cyfetholedig heb hawliau pleidleisio.

3.6 Cynhelir chwe chyfarfod o bob Pwyllgor Sgriwtini ym mhob blwyddyn sirol, ond gellir galw cyfarfodydd arbennig ychwanegol a chyfarfodydd Panel os oes angen.

**4.0 ARGYMHELLIAD**

4.1 Bod y Cyngor yn dirprwyo disgresiwn i bob Pwyllgor Sgriwtini benodi Aelodau cyfetholedig sydd heb hawliau pleidleisio, am ba gyfnod bynnag y bydd pob Pwyllgor Sgriwtini yn ystyried ei fod yn briodol, ac ar delerau i'w pennu ganddynt, heb orfod gofyn i'r Cyngor gymeradwyo.

Adroddiad gan: Rheolydd Sgriwtini Dyddiad: 30 Mai 2013

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **18 Mehefin 2013** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Adolygiadau Etholiadol: Polisi o ran Maint Cynghorau** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Prif Weithredwr** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adrodd ar fwriad y Comisiwn Ffiniau i gynnal adolygiad etholiadol o faint y cynghorau ym mhrif ardaloedd Cymru** |

**1.0 Cyflwyniad**

1.1 Mae'n ofynnol i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru (LGBCW) gynnal adolygiadau o bryd i'w gilydd o'r trefniadau etholiadaol ym mhrif ardaloedd Cymru.

1.2 Ym Mai 2012, cyhoeddodd LGBCW bapur ymgynghori ac ynddo rai safbwyntiau cychwynnol ynglŷn â sut y gellir penderfynu ar faint cynghorau cyn adolygiad etholiadol. O ganlyniad i sylwadau a dderbyniwyd ar y methodolegau i'w defnyddio ar gyfer penderfynu maint Cynghorau, mae papur ymgynghori pellach wedi ei lunio sydd yn nodi safbwyntiau'r Comisiwn ac agwedd sydd yn seiliedig ar y dull a ddefnyddir ar hyn o bryd yn Yr Alban gydag amrywiaethau o ran daearyddiaeth, topograffi a dwysedd poblogaeth. Mae copi o'r papur ymgynghori ynghlwm.

**Y Fethodoleg y bwriedir ei defnyddio**

1.3 Cynigir nifer o ffactorau y dylid eu hystyried yn cynnwys dwysedd poblogaeth a dosbarthiad y boblogaeth o fewn ardal awdurdod lleol.

1.4 Mae'r papur ymgynghori yn cynnig y dylid gosod awdurdodau mewn pedwar chategori yn seiliedig ar drefoliad a dwysedd poblogaeth. O ran Ynys Môn, byddai'r Cyngor yn cael ei roddi yng nghategori 4 (mwy na 50% o'r boblogaeth yn byw y tu allan i drefi gyda mwy na 10,000 o boblogaeth a llai na 2 berson yr hectar mewn perthynas â dwysedd poblogaeth.

1.5 Byddai hyn yn rhoi cymhareb Cynghorydd : poblogaeth o 2000 a chan ddefnyddio'r fethodoleg hon, byddai'r gymhareb Cynghorydd : poblogaeth yn rhoi cyfanswm o 35 o Gynghorwyr i Ynys Môn.

**Rhwystrau**

1.6 Fodd bynnag, mae'r papur ymgynghori'n nodi y gall unrhyw ddull ar gyfer penderfynu maint Cyngor gael ei gyfyngu gan ddeddfwriaeth a Gorchymyn Gweinidogol ac ymwybyddiaeth o effaith unrhyw newid arfaethedig i faint presennol y Cynghorau.

1.7 Mae Gorchmynion Gweinidogol yn y gorffennol wedi dweud:

a) *Ystyrir bod angen o leiaf 30 o gynghorwyr i fedru rheoli materion cyngor sir neu fwrdeistref sirol yn briodol;*

b) *Ystyrir, er mwyn lleihau'r risg y daw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yn rhy fawr ac yn anodd ei reoli, bod angen hyd at 75 o gynghorwyr yn gyffredinol ar gyfer gallu rheoli materion cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yn briodol*.

1.8 O'r ymgynghoriad blaenorol, fe ymddengys bod y materion hyn yn cael eu derbyn yn gyffredinol.

1.9 Mae'r effaith a gâi newid sylweddol ar redeg cyngor be bai'r newid hwnnw'n digwydd yn sgil un adolygiad etholiadol hefyd wedi cael ei ystyried gan y Comisiwn. Felly, yn achos pob adolygiad, gosodwyd cyfyngiad na fydd nifer y cynghorwyr yn amrywio gan ychwaneg na 10% o nifer presennol y cynghorwyr. Fodd bynnag, ar gais y prif gyngor dan sylw, bydd y Comisiwn yn ystyried mynd dros ei gyfyngiad gwahaniaeth 10% wrth symud tuag at gyngor o faint a benderfynir gan y model.

2.0 Yn gyffredinol, ac o ran sefyllfa Ynys Môn a chan gymryd y cyfyngiadau hyn i ystyriaeth, byddai nifer y cynghorwyr a gynigir yn cynyddu i 33.

Mae'r papur ymgynghori yn mofyn sylwadau ar:-

- Parametrau categoreiddio (gan sicrhau mai dim ond newidiadau sylweddol o ran dwysedd poblogaeth a threfoliad a fyddai'n arwain at newid categori awdurdod lleol) [adran 2 y papur ymgynghori];

- Cymhareb cynghorydd : poblogaeth (a yw'r gymhareb cynghorydd : poblogaeth yn briodol i bob categori) [adran 2 y papur ymgynghori];

- Y Cynghorau mwyaf a lleiaf a ganiateir – safbwyntiau ar Orchmynion Gweinidogol [Adran 3 yr adroddiad ymgynghori];

- Cap Adolygu – cyfyngiadau ar raddfa'r newid o ran niferoedd y cynghorwyr [adran 3 yr adroddiad].

2.1 Gofynnir am safbwyntiau ar y cynigion hyn erbyn 19 Mehefin 2013.

**Argymhelliad**

Gofynnir i'r Cyngor ffurfio ei ymateb i'r materion a godwyd yn y papur ymgynghori ac awdurdodi'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad gyda'r Arweinydd i ymateb yn unol â hynny.

Tŷ Hastings
Llys Ffitsalan
Caerdydd
CF24 0BL

E-bost:
cflll.cymru@cymru.gsi.gov.uk
www.cflll-cymru.gov.uk

Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru
Local Government Boundary Commission for Wales

☎ (029) 2046 4819
Ffacs/Fax (029) 2046 4823

Hastings House
Fitzalan Court
Cardiff
CF24 0BL

E-mail:
lgbc.wales@wales.gsi.gov.uk
www.lgbc-wales.gov.uk

27 Mawrth, 2013.

---


Annwyl Syr / Madam,

Mae'n bleser gennyf gyflwyno 'Arolygon Etholiadol: Papur Ymgynghori ar Bolisi Maint Cynghorau' y Comisiwn i chi ei ystyried.

Mae'r Comisiwn wedi gweithio'n galed gydag Uned Ddata CLILC i greu methodoleg gadarn, dryloyw a theg, yn seiliedig ar ddata, ar gyfer cyfrifo'r nifer briodol o gynghorwyr ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru.

Edrychwn ymlaen at glywed eich barn. Nodwch y bydd y cyfnod ymgynghori'n rhedeg tan 19 Mehefin 2013.

Yr eiddoch yn gywir,



Owen Watkin OBE DL

Cadeirydd, Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru

---

**Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg**
**The Commission welcomes correspondence in English or Welsh**

Tŷ Hastings
Llys Ffitsalan
Caerdydd
CF24 0BL

E-bost:
cflll.cymru@cymru.gsi.gov.uk
www.cflll-cymru.gov.uk

Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru
Local Government Boundary Commission for Wales

☎ (029) 2046 4819
Ffacs/Fax (029) 2046 4823

Hastings House
Fitzalan Court
Cardiff
CF24 0BL

E-mail:
lgbc.wales@wales.gsi.gov.uk
www.lgbc-wales.gov.uk

27th March, 2013.

---


Dear Sir / Madam,

I am pleased to be writing to you to present the Commission's 'Electoral Reviews: Council Size Policy Consultation Paper' for your consideration.

The Commission has worked hard with the WLGA Data Unit to create a robust, transparent, data driven and fair methodology for calculating the appropriate number of councillors for each local authority in Wales.

We look forward to receiving your views. Please note that the consultation period runs until 19 June 2013.

Yours faithfully,



Owen Watkin OBE DL

Chair, Local Government Boundary Commission for Wales

Comisiwn Ffiniau
Llywodraeth Leol
i Gymru

Local Government
Boundary Commission
for Wales

# Arolygon Etholiadol:
# Papur Ymgynghori
# Ar Bolisi Meintiau Cynghorau

## 27 Mawrth 2013

Daw'r ymgynghoriad i ben
ar 19 Mehefin 2013

# Arolygon Etholiadol: Papur Ymgynghori ar Bolisi Meintiau Cynghorau

## Mawrth 2013

### 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'n ofynnol bod Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yn cynnal arolygon cyfnodol o'r trefniadau etholiadol ar gyfer prif ardaloedd yng Nghymru. Caiff y modd y mae'r Comisiwn yn cynnal arolwg etholiadol ei ddiffinio gan ddeddfwriaeth a chan Gyfarwyddiadau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.

1.2 Cyhoeddodd y Comisiwn ei bapur 'Arolygon etholiadol: polisi ac arfer' ar 12 Mawrth 2012. Nid oedd y papur hwnnw'n cynnwys ymagwedd y Comisiwn at faint cynghorau. Felly, ym mis Mai 2012, lluniwyd papur ymgynghori gennym yn esbonio barn gychwynnol o ran sut y gellir pennu meintiau cynghorau cyn cynnal arolwg etholiadol.

1.3 Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori cychwynnol roedd ymatebion wedi dod i law gan fwyafrif y prif gynghorau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), y pleidiau gwleidyddol ac unigolion, gan gynnwys cyn gynghorwyr. Roedd yr ymateb cyffredinol o blaid dull sy'n seiliedig ar nodi nifer y cynghorwyr a fyddai'n briodol i sicrhau darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ar gyfer awdurdodau. Nid oedd cefnogaeth gyffredinol, fodd bynnag, i'r fethodoleg benodol a gynigiwyd gan y papur. Roedd yn amlwg bod rhai pryderon ynglŷn â'r dull bandio a awgrymwyd. Mynegwyd y farn y dylai'r fethodoleg a ddefnyddir a'r cyfiawnhad dros sefydlu meintiau cynghorau fod yn seiliedig ar ffactorau ehangach na nodweddion cymdeithasol-daearyddol yn unig, a gallai fod angen iddynt gynnwys ffactorau dwysedd poblogaeth. Roedd barn hefyd fod angen cyfiawnhau'r cymarebau etholwyr fesul cynghorydd a fabwysiadwyd yn y papur ymgynghori.

1.4 Cyfarfu cynrychiolwyr o'r Comisiwn â chynrychiolwyr o CLlLC ym mis Gorffennaf 2012 i drafod canlyniad yr ymgynghoriad. Yn y cyfarfod cytunwyd y byddai'r Comisiwn yn gweithio gyda'r Uned Ddata Llywodraeth Leol ~ Cymru i ystyried ymhellach y fethodoleg a ddefnyddir ar gyfer pennu meintiau cynghorau, ac i ymchwilio i setiau data a methodolegau gwahanol. Cynhaliwyd cyfarfodydd pellach gyda CLlLC a'r Uned Ddata, ac, yn dilyn gwaith dadansoddi manwl gan yr Uned Ddata, roedd y Comisiwn yn gallu ystyried methodolegau amgen a ddefnyddiai data a oedd yn gyfredol ac ar gael yn rhwydd. Buom yn ystyried methodolegau a oedd mewn sawl ffordd yn ystyried niferoedd etholwyr, maint poblogaethau a mesurau dwysedd poblogaeth a threfoli. Rydym wedi penderfynu ar fethodoleg a ffefrir sydd wedi'i seilio'n fras ar y dull sydd ar waith yn yr Alban ar hyn o bryd.

1.5 Mae'r papur ymgynghori hwn yn gosod barn ac ymagwedd bellach y Comisiwn o ran sut y mae'n credu y dylai maint cyngor gael ei bennu, ar sail ei brofiad, ei arbenigedd a'i wybodaeth am lywodraeth leol. Mae'r Comisiwn yn croesawu barn gan bawb â buddiant, awdurdodau lleol ac unigolion ynghylch yr ymagwedd arfaethedig hon. Ystyrir pob barn cyn y bydd y Comisiwn yn gwneud ei benderfyniad terfynol o ran sut y dylid ystyried maint cyngor fel rhan o arolwg etholiadol.

1.6 Mae croeso i ymatebwyr gynnig sylwadau ar unrhyw agwedd ar y papur hwn. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol dros ben pe roddid sylw i'r cwestiynau penodol a geir yn Atodiad A. Gofynnir i ymatebwyr anfon eu sylwadau at y CFfLlLG erbyn 19 Mehefin 2013. Dylid anfon yr holl sylwadau drwy e-bost at cflll.cymru@cymru.gsi.gov.uk neu drwy'r post at gyfeiriad newydd y Comisiwn:

Y Prif Weithredwr
Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru
Tŷ Hastings
Llys Ffitsalan
Caerdydd
CF24 0BL


## 2. Y fethodoleg arfaethedig

2.1 Wrth ystyried methodoleg ar gyfer pennu maint cynghorau, mae'r Comisiwn wedi mabwysiadu'r egwyddor y dylai unrhyw ymagwedd at fodelu niferoedd cynghorwyr fod yn wrthrychol, yn dryloyw ac yn seiliedig ar fethodoleg gadarn. Wrth benderfynu ar fethodoleg a ffefrir, bu'r Comisiwn yn ystyried y dull sydd ar waith yn yr Alban ar hyn o bryd, dull cadarn sydd wedi ei dderbyn ar farnu maint cynghorau ar awdurdodau lleol, gydag amrywiadau o ran daearyddiaeth, topograffeg a dosbarthiad poblogaeth. Mae'r Comisiwn a'r Uned Ddata wedi gweithio gyda'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i'r Alban er mwyn cael gwell dealltwriaeth o sut y datblygwyd eu hymagwedd bresennol, ac maent wedi elwa o fodel tebyg ar gyfer Cymru.


2.2 Mae'r dull a gynigir yn y papur hwn yn defnyddio gwybodaeth yn ymwneud â dosbarthiad poblogaeth mewn awdurdodau, gan alluogi dod i gasgliad ynglŷn â natur drefol a / neu wledig cymharol eu hardaloedd, mewn termau demograffig. Mae defnyddio'r data i gategoreiddio'r awdurdodau wedyn yn rhoi ymagwedd dryloyw a chadarn a fydd yn cynnig dull cynaliadwy ar gyfer dyrannu yn y dyfodol. Mae'n sicrhau bod awdurdodau sy'n rhannu nodweddion tebyg yn cael eu trin yn yr un ffordd. Y paramedrau a ddefnyddiwyd i bennu'r categorïau yw trefoli (canran y boblogaeth sy'n byw y tu allan i aneddiadau sydd â phoblogaeth o fwy na 10,000) a dwysedd poblogaeth (nifer o bobl fesul hectar). Pennwyd y categorïau gan gyfuniad o edrych ar grwpiau priodol yn y data, ac fel y pennir gan batrymau dosbarthiad poblogaeth priodol mewn ardaloedd awdurdodau lleol.

2.3 Y ffactor cyntaf a ystyrir yw dwysedd poblogaeth. Mae'r siart isod yn dangos dosbarthiad dwysedd y boblogaeth ledled Cymru. Y data a ddefnyddir yma yw Amcangyfrifon Canol Blwyddyn 2011[1] o ddwysedd y boblogaeth a dwysedd poblogaeth 2011 cysylltiedig. Mae'r data'n awgrymu bod 4 grŵp o awdurdodau lleol yng Nghymru o ran dwysedd poblogaeth (o'r brig i'r gwaelod):

i. Y rhai sy'n fwy neu'n gyfwerth â 10 (Caerdydd)
ii. Y rhai sy'n fwy neu'n gyfwerth â 4.5 ond yn llai na 10 (Casnewydd i Ferthyr Tudful)
iii. Y rhai sy'n fwy neu'n gyfwerth â 2 ond yn llai na 4.5 (Bro Morgannwg i Wrecsam)
iv. Y rhai sy'n llai na 2 (Sir Ddinbych i Bowys)



2.5 Yr ail ffactor i'w ystyried yw 'trefoli' neu ganran y boblogaeth sy'n byw y tu allan i aneddiadau â phoblogaeth dros 10,000. Mae'r ffactor hwn yn gwahaniaethu'r awdurdodau hynny sydd â mwyafrif poblogaeth yn byw mewn cymunedau mwy, trefi neu aneddiadau trefol. Mae'r siart isod yn dangos y dosbarthiad ar hyd a lled Cymru o ganran y boblogaeth sy'n byw y tu allan i aneddiadau â phoblogaeth o fwy na 10,000. Gan nad oes unrhyw raniad amlwg yn y data, y pwynt diffinio mwyaf priodol sy'n gyson â thryloywder yw 50%.




2.6 Ystyriwyd y gallai'r Comisiwn rannu awdurdodau lleol Cymru yn ôl y pedwar categori a nodwyd ar sail dwysedd y boblogaeth yn unig. Fodd bynnag, cred y Comisiwn fod rhinwedd mewn sefydlu model cadarn sy'n adlewyrchu dwysedd poblogaeth a gwasgariad poblogaeth mewn ardal awdurdod lleol, a model sy'n gallu parhau ac addasu i newidiadau ym mhoblogaeth awdurdodau lleol Cymru yn y dyfodol. Felly, mae'r model a gyflwynwyd yn cynnwys y ddwy set o ffactorau er nad ydyw, yn y lle cyntaf, yn effeithio ar nifer o awdurdodau lleol.

2.7 I ystyried yr amgylchiadau yng Nghymru a sicrhau mai dim ond newidiadau sylweddol mewn dwysedd poblogaeth fyddai'n newid categori awdurdod lleol, cynigir set o gategorïau trefoli a dwysedd poblogaeth fel a ganlyn:

- Lle mae 50% neu fwy o'r boblogaeth yn byw y tu allan i aneddiadau sy'n fwy na 10,000 o bobl; a,
- Lle mae dwysedd y boblogaeth yn fwy neu'n gyfwerth â 10 o bobl fesul hectar, yn fwy neu'n gyfwerth â 4.5 o bobl fesul hectar ond yn llai na 10 o bobl fesul hectar, yn fwy neu'n gyfwerth â 2 o bobl fesul hectar ond yn llai na 4.5 o bobl fesul hectar, yn llai na 2 o bobl fesul hectar.

2.8 Mae defnyddio'r gwerthoedd o'r siartiau uchod yn rhoi'r paramedrau categoreiddio a ddangosir yn Tabl 1.

**Tabl 1: Paramedrau categoreiddio**

| Categori | Natur drefol (% o'r boblogaeth yn byw y tu allan i drefi â phoblogaeth mwy na 10,000 ) | | Dwysedd poblogaeth (pobl fesul hectar) |
|---|---|---|---|
| 1 | Llai na 50% | A | Mwy neu'n gyfwerth â 10 |
| 2 | Llai na 50% | A | Mwy neu'n gyfwerth â 4.5 |
| 3 | Mwy na 50% | A/NEU | Llai na 4.5 |
| 4 | Mwy na 50% | A | Llai na 2 |

2.9 Gan ddefnyddio'r fethodoleg hon caiff yr awdurdodau eu categoreiddio fel y dangosir yn Tabl 2.

**Tabl 2: Dyraniad categori**

| Awdurdod | Categori |
|---|---|
| Blaenau Gwent | 2 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 2 |
| Caerffili | 2 |
| Caerdydd | 1 |
| Sir Gaerfyrddin | 4 |
| Ceredigion | 4 |
| Conwy | 3 |
| Sir Ddinbych | 4 |
| Sir y Fflint | 3 |
| Gwynedd | 4 |
| Ynys Môn | 4 |
| Merthyr Tudful | 2 |
| Sir Fynwy | 4 |
| Castell-nedd Port Talbot | 3 |
| Casnewydd | 2 |
| Sir Benfro | 4 |
| Powys | 4 |
| Rhondda Cynon Taf | 2 |
| Abertawe | 2 |
| Bro Morgannwg | 3 |
| Tor-faen | 2 |
| Wrecsam | 3 |

2.10 Pan fydd yr awdurdodau wedi'u dyrannu i gategori, yna caiff cymhareb cynghorwyr i'r boblogaeth ei chymhwyso i bob awdurdod yn y categori. Mae'r dull hwn yn ystyried maint y boblogaeth gyffredinol, tra'n parhau i sicrhau hefyd fod awdurdodau â nodweddion tebyg yn cael eu trin yr un fath.

2.11 Mae'r cymarebau poblogaeth ar gyfer y categorïau yn cael eu pennu fel set a chan ystyried y categorïau a bennwyd yn ôl trefoli a dwysedd poblogaeth. Cynigir newid deublyg rhwng y categorïau ar y brig a'r gwaelod yng Nghymru i adlewyrchu'r amrediad ychydig yn llai mewn trefoli a dwysedd poblogaeth. Rhyw 1:2,000 yw'r gymhareb

gyfartalog bresennol ar gyfer cynghorau categori 4, ac felly ystyriwyd ei bod yn briodol i gymhwyso'r gymhareb hon i'r categori hwn. Mae'r newid o ran cymarebau rhwng categorïau 4 a 3 a rhwng categorïau 3 a 2 yn fach ar 500 o bobl fesul cynghorydd. Mae hyn i adlewyrchu'r newid graddol yn natur categorïau, ac mae'r un fath ag ym methodoleg yr Alban. Mae mwy o newid, sef 1,000, rhwng y ddau gategori uchaf, gan adlewyrchu'r gwahaniaeth yn eu natur. Dangosir y cymarebau arfaethedig yn Tabl 3.

**Tabl 3: Cymarebau cynghorwyr i'r boblogaeth**

| Categori | Cymhareb (1: ) |
|---|---|
| 1 | 4,000 |
| 2 | 3,000 |
| 3 | 2,500 |
| 4 | 2,000 |

2.12 Defnyddir y gymhareb cynghorwyr i'r boblogaeth ar gyfer pob categori er mwyn pennu nifer y cynghorwyr, fel y dangosir yn Tabl 4.

**Tabl 4: Categoreiddio a dyraniad cynghorwyr**

| Categori | Awdurdod | Poblogaeth | Nifer y Cynghorwyr |
|---|---|---|---|
| 1 | Caerdydd | 345,442 | 86 |
| 2 | Blaenau Gwent | 69,812 | 23 |
| | Pen-y-bont ar Ogwr | 139,410 | 46 |
| | Caerffili | 78,782 | 60 |
| | Merthyr Tudful | 58,851 | 20 |
| | Casnewydd | 145,785 | 49 |
| | Rhondda Cynon Taf | 234,373 | 78 |
| | Abertawe | 238,691 | 80 |
| | Tor-faen | 91,190 | 30 |
| 3 | Conwy | 115,326 | 46 |
| | Sir y Fflint | 152,666 | 61 |
| | Castell-nedd Port Talbot | 139,880 | 56 |
| | Bro Morgannwg | 126,679 | 51 |
| | Wrecsam | 135,070 | 54 |
| 4 | Sir Gaerfyrddin | 183,961 | 92 |
| | Ceredigion | 75,293 | 38 |
| | Sir Ddinbych | 93,919 | 47 |
| | Gwynedd | 121,523 | 61 |
| | Ynys Môn | 69,913 | 35 |
| | Sir Fynwy | 91,508 | 46 |
| | Sir Benfro | 122,613 | 61 |
| | Powys | 133,071 | 67 |
| | **Cymru** | **3,063,758** | **1,187** |

## 3. Cyfyngiadau

3.1 Fel y nodwyd uchod, wrth ystyried methodoleg ar gyfer pennu maint cyngor, mabwysiadodd y Comisiwn yr egwyddor y dylai unrhyw ymagwedd at fodelu niferoedd cynghorwyr fod yn wrthrychol, yn dryloyw ac yn seiliedig ar fethodoleg gadarn. Deellir, fodd bynnag, y gall unrhyw ddull ar gyfer pennu maint cyngor gael ei gyfyngu gan ddeddfwriaeth a Chyfarwyddiadau gan Weinidogion, ac ymwybyddiaeth o effaith unrhyw newid arfaethedig i feintiau cynghorau presennol.

3.2 Mewn perthynas â maint cyngor, mae Cyfarwyddiadau'r Gweinidog mewn perthynas ag arolygon etholiadol wedi datgan yn y gorffennol:

(a) Ystyrir bod angen lleiafswm o 30 cynghorydd er mwyn rheoli materion cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yn briodol;
(b) Ystyrir, er mwyn lleihau'r risg o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yn mynd yn afrosgo ac yn anodd ei reoli, fel arfer mae angen uchafswm o 75 cynghorydd i reoli materion cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yn briodol.

O'n hymgynghoriad cynharach, ymddengys fod y macsima a'r minima hyn yn cael eu derbyn yn gyffredinol, ac rydym felly wedi derbyn y rhain fel cyfyngiadau i'r fethodoleg.

3.3 Ystyriwyd hefyd yr effaith y gallai newid sylweddol ei chael ar rediad cyngor pe bai'n gymwys o ganlyniad i un arolwg etholiadol. Mae cyfyngiad wedi'i gymhwyso felly fel na fydd nifer y cynghorwyr, ar gyfer pob arolwg, yn amrywio mwy na 10%. Ar gais y prif gyngor dan sylw, bydd y Comisiwn yn ystyried mynd dros ben ei derfyn amrywio 10% wrth symud tuag at faint cyngor a bennir gan y model.

3.5 Er mwyn sicrhau bod y broses yn glir a theg, mae'r cyfyngiadau ar uchafswm neu isafswm niferoedd cynghorwyr neu ar lefelau newid, wedi'u cymhwyso ar ddiwedd y broses.

## 4. Model a Gymhwyswyd

4.1 Mae'r dyraniad cynghorwyr a bennir gan y fethodoleg (yn Adran 2 uchod) yn dod yn destun y cyfyngiadau wedyn (yn Adran 3 uchod). Mae Tabl 5 yn dangos nifer bresennol y cynghorwyr, ac mae'n rhoi'r nifer ddyranedig o gynghorwyr cyn ac ar ôl cyfyngiadau.

**Tabl 5: Categoreiddio a dyraniad cynghorwyr cyn ac ar ôl cyfyngiadau**

| Categori | Awdurdod | Nifer y cynghorwyr | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Presennol (2012) | Cyn cyfyngiadau | Ar ôl cyfyngiadau |
| 1 | Caerdydd | 75 | 86 | 75 |
| 2 | Blaenau Gwent | 42 | 23 | 38 |
| | Pen-y-bont ar Ogwr | 54 | 46 | 49 |
| | Caerffili | 73 | 60 | 66 |
| | Merthyr Tudful | 33 | 20 | 30 |
| | Casnewydd | 50 | 49 | 49 |
| | Rhondda Cynon Taf | 75 | 78 | 75 |
| | Abertawe | 72 | 80 | 75 |
| | Tor-faen | 44 | 30 | 40 |
| 3 | Conwy | 59 | 46 | 53 |
| | Sir y Fflint | 70 | 61 | 63 |
| | Castell-nedd Port Talbot | 64 | 56 | 58 |
| | Bro Morgannwg | 47 | 51 | 51 |
| | Wrecsam | 52 | 54 | 54 |
| 4 | Sir Gaerfyrddin | 74 | 92 | 75 |
| | Ceredigion | 42 | 38 | 38 |
| | Sir Ddinbych | 47 | 47 | 47 |
| | Gwynedd | 75 | 61 | 67 |
| | Ynys Môn | 30 | 35 | 33 |
| | Sir Fynwy | 43 | 46 | 46 |
| | Sir Benfro | 60 | 61 | 61 |
| | Powys | 73 | 67 | 67 |
| | **Cymru** | **1,254** | **1,187** | **1,210** |

4.2 Mae'r fethodoleg arfaethedig yn rhoi dull tryloyw, dull sy'n seiliedig ar ddata a dull diogel at y dyfodol ar gyfer cyfrifo'r nifer briodol o gynghorwyr ym mhob awdurdod lleol a Chymru gyfan. Mewn rhai awdurdodau, mae'r niferoedd cynghorwyr a gafwyd o'r dull arfaethedig yn dangos newid sylweddol o'u niferoedd presennol. Mae'r cyfyngiadau a gymhwysir ar ôl hynny yn sicrhau bod y broses trosglwyddo i'r system hon yn hwylus a theg.

**Ôl-nodion**

[1] Nid yw'r Comisiwn wedi defnyddio data Cyfrifiad 2011 gan i Amcangyfrifon Canol Blwyddyn 2011 gael eu rhyddhau ym mis Medi 2012 ac fe'u seiliwyd ar Gyfrifiad 2011. Maent yn gyfres gyson o ystadegau poblogaeth a ddarperir ar gyfer 30 Mehefin bob blwyddyn. Dim ond unwaith bob 10 mlynedd y cynhelir y Cyfrifiad, ac ar ddyddiad gwahanol.

# Cwestiynau'r Ymgynghoriad

**Y Fethodoleg Arfaethedig**
Paramedrau Categoreiddio (Tabl 1)

I ystyried yr amgylchiadau yng Nghymru a sicrhau mai dim ond newidiadau sylweddol mewn dwysedd poblogaeth a threfoli fyddai'n newid categori awdurdod lleol, mae angen i ni bennu categorïau trefoli a dwysedd poblogaeth fel a ganlyn:

- Lle mae 50% neu fwy o'r boblogaeth yn byw y tu allan i aneddiadau sy'n fwy na 10,000 o bobl; a,
- Lle mae dwysedd y boblogaeth yn fwy neu'n gyfwerth â 10 o bobl fesul hectar, yn fwy neu'n gyfwerth â 4.5 o bobl fesul hectar ond yn llai na 10 o bobl fesul hectar, yn fwy neu'n gyfwerth â 2 o bobl fesul hectar ond yn llai na 4.5 o bobl fesul hectar, yn llai na 2 o bobl fesul hectar.

C 1 A ydych o'r farn fod y paramedr 50% o'r boblogaeth sy'n byw y tu allan i aneddiadau sy'n fwy na 10,000 o bobl yn briodol i Gymru?

C 2 A ydych o'r farn fod y paramedrau 2, 4.5 a 10 o bobl fesul hectar ar gyfer dwysedd poblogaeth yn briodol i Gymru?

Cymarebau Cynghorwyr i'r Boblogaeth (Tabl 3)

Mae'r cymarebau ar gyfer y categorïau yn cael eu pennu fel set a chan ystyried y categorïau a bennwyd yn ôl trefoli a dwysedd poblogaeth. Cynigir newid deublyg rhwng y categorïau ar y brig a'r gwaelod yng Nghymru i adlewyrchu'r amrediad mewn trefoli a dwysedd poblogaeth. 1:2,000 yw'r gymhareb gyfartalog bresennol ar gyfer cynghorau categori 4, ac felly ystyriwyd ei bod yn briodol i gymhwyso'r gymhareb hon i'r categori hwn. Mae'r newid o ran cymarebau rhwng categorïau 4 a 3 a rhwng categorïau 3 a 2 yn fach ar 500 o bobl fesul cynghorydd. Mae hyn i adlewyrchu'r newid graddol yn natur categorïau. Mae mwy o newid, sef 1,000, rhwng y ddau gategori uchaf, gan adlewyrchu'r gwahaniaeth yn eu natur.

C 3 A ydych o'r farn fod y cymarebau cynghorwyr i'r boblogaeth yn briodol ar gyfer pob categori?

**Cyfyngiadau**
Uchafswm a Lleiafswm Meintiau Cynghorau

Mewn perthynas â maint cyngor, mae Cyfarwyddiadau'r Gweinidog mewn perthynas ag arolygon etholiadol wedi datgan yn y gorffennol:

(a) Ystyrir bod angen lleiafswm o 30 cynghorydd er mwyn rheoli materion cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yn briodol;
(b) Ystyrir, er mwyn lleihau'r risg o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yn mynd yn afrosgo ac yn anodd ei reoli, fel arfer mae angen uchafswm o 75 cynghorydd i reoli materion cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yn briodol.

O'n hymgynghoriad cynharach, ymddengys fod y macsima a'r minima hyn yn cael eu derbyn yn gyffredinol, ac rydym felly wedi derbyn y cyfyngiadau hyn i'r fethodoleg, fodd bynnag, cyn i'r polisi hwn ddod yn ddeddf, mae'n bwysig rhoi hwn ar brawf eto.

C 4 A ydych o’r farn ei bod yn briodol bod angen lleiafswm o 30 cynghorydd er mwyn rheoli materion cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yn briodol?

C 5 A ydych o’r farn ei bod yn briodol bod angen uchafswm o 75 cynghorydd i reoli materion cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yn briodol cyn iddo fynd yn afrosgo ac yn anodd ei reoli?

Terfyn arolygon

Er mwyn lleihau’r effaith y gallai newid sylweddol yn nifer yr aelodau ei chael ar rediad cyngor, mae’r fethodoleg arfaethedig yn awgrymu na fydd nifer y cynghorwyr, ar gyfer pob arolwg, yn amrywio mwy na 10%. Nodir y gall fod angen mwy nag un arolwg ar gyfer rhai awdurdodau er mwyn sicrhau’r nifer briodol o aelodau. Ar gais y prif gyngor dan sylw, bydd y Comisiwn yn ystyried mynd dros ben ei derfyn amrywio 10% wrth symud tuag at faint cyngor a bennir gan y model.

C 6 A ydych o’r farn ei bod yn briodol rhoi terfyn ar faint y newid o ran niferoedd cynghorwyr o ganlyniad i arolwg?

C 7 Pa lefel ganran gredwch chi sy’n briodol i’w defnyddio fel terfyn ym mhob arolwg?

C 8 A ddylai’r Comisiwn allu peidio â chadw at y terfyn arolygon os gofynnir yn benodol iddo wneud hynny gan awdurdod lleol a phan na fydd newid o’r fath yn amrywio o’r model?

This page is intentionally left blank

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# PUBLIC INTEREST TEST

**WASTE COLLECTION VEHICLE PROCUREMENT/**PWRCASU CERBYDAU CASGLU GWASTRAFF

| | |
|---|---|
| Paragraff(au) Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraph(s) Paragraph 14 of Part 4 to Schedule 12A Local Government Act 1972 | |
| Y PRAWF – THE TEST | |
| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-<br><br>Nid oes unrhyw newid arfaethedig i'r gwasanaeth casglu sbwriel i'r defnyddiwr.<br><br>*There is no proposed change to the waste collection service received by the householder* | Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-<br><br>Gwybodaeth fasnachol sensitive yn seiliedig ar gostau contractau casglu sbwriel a chostau eraill ar hyn o bryd yn y dyfodol.<br><br>*Commercially sensitive information based on current and future contractual waste collection and other costs.* |
| **Argymhelliad** - Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na/~~llai na*~~ budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth. [* - dilëwch y geiriau amherthnasol]<br>**Recommendation** - The public interest in maintaining the exemption outweighs/~~does not outweigh~~* the public interest in disclosing the information. [* - delete as appropriate] | |

CYFRINACHOL/CONFIDENTIAL

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank